Data agored


Fel corff sy'n ymwneud â'r cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth am sut rydym yn buddsoddi arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar gael yn rhwydd ac yn hawdd ei deall.

Am y rheswm hwn, rydym yn cefnogi data agored sy'n:

- cael ei gyhoeddi'n rhagweithiol ac yn rheolaidd (rydym yn diweddaru ein data bob chwarter)
- wedi'i ddadgyfuno a'i ddadbersonoli
- wedi'i ddarparu mewn fformatau y gellir eu darllen gan beiriant (megis CSV)
- ar gael i'w ailddefnyddio (rydym yn cyhoeddi o dan y Drwydded Llywodraeth Agored)

Gallwch gael mynediad at ein data agored:

- trwy ein gwyliwr data agored newydd (yn agor mewn tab newydd)
- fel ffeiliau CSV y gellir eu darllen gan beiriant
- ar 360Giving GrantNav



Rydym wedi dylunio'r gwyliwr data agored i'ch helpu i archwilio ein data grantiau trwy siartiau, mapiau a thablau rhyngweithiol.

Gallwch hidlo yn ôl lleoliad (gan gynnwys awdurdod lleol ac etholaeth seneddol), rhaglen ariannu, math o dreftadaeth ac ystod dyddiadau i weld tueddiadau a chael cipolwg ar ein hariannu gan y Loteri Genedlaethol yn y DU ers 1994.

Ar gyfer pwy mae'r gwyliwr data agored?

Credwn y bydd yn ddefnyddiol i lunwyr polisi, ymchwilwyr, newyddiadurwyr, sefydliadau treftadaeth, ymgeiswyr posibl ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb.

Mae'n fwyaf addas i ddefnyddwyr sydd eisiau dadansoddi, cymharu a rhyngweithio â data dyfarnu grantiau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol mewn ffordd weledol.

Os ydych chi'n chwilio am grynodebau o brosiectau unigol, gan gynnwys astudiaethau achos, efallai y byddwch yn cael yr adran Prosiectau rydym wedi'u hariannu o'n gwefan yn fwy defnyddiol.

Mae'r gwyliwr data agored yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i'w ddefnyddio.

Nodiadau pwysig am ein data agored

Mae rhai rhybuddion y mae angen eu hystyried ochr yn ochr â defnyddio ein data:

- Mae rhai o'r prosiectau rydym yn eu hariannu'n digwydd dros sawl safle neu safleoedd mawr, ac weithiau rydym yn dyfarnu arian i sefydliadau i ddosbarthu grantiau pellach ar ein rhan. Dim ond un cod post y gallwn ei gael fesul prosiect, felly rydym yn gwneud ein gorau i gynrychioli lleoliad y dyfarniad grant gan ddefnyddio'r cod post lle mae'r rhan fwyaf o waith y prosiect yn digwydd.
- Dim ond unwaith y mae pob prosiect a ariannwn yn ymddangos yn y data, gyda dyddiad yn dangos y dyfarniad grant cychwynnol. Mae prosiectau dros £250,000 yn mynd trwy broses ymgeisio dau gam: datblygu a chyflawni. Mae hyn yn golygu y gallai data ar gyfer rhai prosiectau mwy newid, gan y bydd ond yn dangos y grant rownd datblygu llai i ddechrau. Gall hyn hefyd effeithio ar gymariaethau o'n data dyfarnu grantiau o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae'r rhan fwyaf o'n harian yn defnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn dosbarthu rhai grantiau ar ran llywodraethau ledled y DU. Gelwir hyn yn gymorth grant. Dim ond grantiau a ariennir yn llawn neu'n rhannol gan y Loteri Genedlaethol sydd yn ein data agored (ac mae'n dangos cyfran y Loteri Genedlaethol o'r dyfarniad yn unig). Gellir gweld data ar gyfer ein harian cymorth grant ar System Wybodaeth Grantiau'r Llywodraeth.
- Dim ond ar gyfer prosiectau a wnaeth gais o fis Chwefror 2024 ymlaen y mae disgrifiadau llawn o brosiectau ar gael.
- Ers i ni ddechrau ariannu prosiectau o dan ein strategaeth Treftadaeth 2033 ym mis Ionawr 2024, ein gwerth grant lleiaf yw £10,000 er bod rhywfaint o'r arian a ddyfarnwn i sefydliadau ar gyfer rhoi grantiau ymlaen yn cael ei ddefnyddio ar gyfer symiau llai.
- Roedd y nifer anarferol o fawr o ddyfarniadau grant yn 2005 drwy'r rhaglen “Home Front Recall”. Ariannodd y rhaglen hon brosiectau lleol a chenedlaethol i gofféu 60 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, gan ddiogelu atgofion sifiliaid a chyn-filwyr, ac roedd yn cynnwys yn bennaf lawer o grantiau llai.

Lawrlwythwch ffeiliau CSV o'n data y gellir eu darllen gan beiriant

CSV
Gweld Prosiectau Cronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol a ariannwyd gyda phenderfyniad cychwynnol rhwng 1 Ebrill 2013 a 30 Mehefin 2026 as CSV(9.32 MB)
Issued date 16/09/2024, last modified 03/08/2026

CSV
Gweld Prosiectau Cronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol a ariannwyd gyda phenderfyniad cychwynnol rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2013 as CSV(10.85 MB)
Issued date 16/09/2024, last modified 03/08/2026

CSV
Gweld Prosiectau Cronfa Treftadaeth Loteri Genedlaethol a ariannwyd gyda phenderfyniad cychwynnol rhwng 15 Mawrth 1995 a 31 Mawrth 2004 as CSV(6.79 MB)
Issued date 16/09/2024, last modified 03/08/2026

- **Version:** 1.1
- **Publisher:Name:** The National Lottery Heritage Fund
- **Publisher:Website:** https://www.heritagefund.org.uk/
- **Publisher:Identifier:** GB-GOR-PC390
- **License:** http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Mae'r gwaith yma wedi'i drwyddedu o dan drwydded agored y llywodraeth ar gyfer gwybodaeth sector cyhoeddus, sy'n eich galluogi i ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael o dan y drwydded hon yn rhwydd ac yn hyblyg, gyda dim ond ychydig o amodau.

Os na allwch ddod o hyd i'r hyn rydych yn chwilio amdano, cysylltwch â ni.